**(HCC 697)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Gwener 6 Mai 2016**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
John Brereton, Will Haresign, Bethan Jones, Gwynn Angell Jones, Graham Probert, Richard Rogers, Richard Tudor a Wyn Williams

**Trwy Wahoddiad:** Kevin Roberts (Verley Consulting Cyf)
(Llywodraeth Cymru)
Alison Wright (Calland Wright Consulting Cyf.)

**Tim Gweithredol:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
**Yno hefyd:** Prys Morgan (Pennaeth Gweithrediadau)

Laura Pickup (Rheolwraig Datblygu'r Farchnad)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a rhoddodd ddiweddariad llafar am y prif ddigwyddiadau a chyfarfodydd y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Mawrth 2016*

Bu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yng Nghinio Blynyddol Gwobrau Dewi Sant, a gynhaliwyd yn Y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd.

*Ebrill 2016*

Cyfarfu'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr â Guto Bebb, AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru i drafod yr Ardoll Cig Coch (Gweler Eitem 7).

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Stan Phillips, Cynghorydd Amaethyddol, a Steve Knight, Arbenigwr Amaethyddol, o Adran Amaethyddiaeth Llysgenhadaeth yr Unol Daleithiau yn Llundain i HCC ar 27 Ebrill 2016. Roedd yr ymweliad yn rhan o daith wedi'i threfnu gan Lywodraeth Cymru ac roedd yn cynnwys ymweliadau â fferm, lladd-dy a chyfarfodydd â sefydliadau amaethyddol.

Rhoddwyd amlinelliad o swyddogaeth HCC a'i weithgareddau ar hyn o bryd. Bu trafodaeth hefyd ynghylch y broblem barhaus o gael Cig Oen Cymru PGI ar y farchnad yn yr Unol Daleithiau.

2. **<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb</u>**

John Yeomans a Gary Haggaty (Llywodraeth Cymru).

3. **<u>Datganiad o Fuddiannau</u>**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Rheoli Credyd ac Aml-symudiadau Anifeiliaid Cig Eidion (Unrhyw Fater Arall) – John Brereton a Wyn Williams.

4. **<u>I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Mawrth 2016 (HCC 689)</u>**

Yn amodol ar nodi dyblygiad paragraffau ar dudalen tri ynghylch ymwybyddiaeth defnyddwyr Cig Eidion Cymru PGI, cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 4 Mawrth 2016 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **<u>Materion yn codi</u>**

*<u>Tynnu Llinyn Cefn Defaid / Hollti Carcasau Cig Oen</u>*

Nid oedd unrhyw gynnydd i'w adrodd.

*<u>Mewnforion Cig Defaid o Seland Newydd</u>*

Nid oedd diweddariad i'w roi.

6. **<u>Adroddiadau HCC</u>**

a. *<u>Adroddiad Gweithgareddau (HCC 690)</u>*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*<u>Cais gan HCC am gyllid yr UE</u>*

Nodwyd bod HCC wedi cyflwyno cais i'r UE am arian:-

“Rhaglen wybodaeth a hyrwyddo er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth ac adnabyddiaeth o gynlluniau ansawdd y Gymuned (Cig Oen Cymru â Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig [PGI] a Cig Eidion Cymru PGI)”.

Manylion y cais oedd:-

<u>Hyd:</u> 3 blynedd, yn cychwyn ym mis Ebrill 2017

<u>Gwledydd targed:</u> Awstria, Gwlad Belg, Ffrainc, yr Iseldiroedd a'r DG

Amcanion:

- Gwneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol o'r symbol PGI
- Gwneud defnyddwyr yn fwy ymwybodol o Gig Oen PGI a Chig Eidion PGI, yn benodol Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI
- Cynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o ansawdd a nodweddion cynhyrchion a phrosesau cynhyrchu sy'n atebol i gynllun ansawdd y Gymuned, sef Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI

Strategaeth

- Cymysgedd o weithgareddau marchnata integredig ymhlith defnyddwyr, pobl dylanwadol eu barn, dosbarthwyr bwyd a'r gwasanaeth bwyd
- Cymryd rhan mewn ffeiriau rhyngwladol
- Dosbarthu deunydd mannau gwerthu
- Trefnu ymweliadau gan newyddiadurwyr a dosbarthwyr bwyd o'r tu allan i Gymru
- Rhaglen marchnata digidol
- Hysbysebu ymhlith defnyddwyr a dosbarthwyr bwyd
- Gweithgaredd Cysylltiadau â'r Wasg

Cyllideb

€5,533,015.28 dros y tair blynedd (70% o'r cyllid o'r UE a 30% o'r Ardoll).

O ran y camau nesaf, disgwylid y byddai gwerthuso'r cais yn cymryd tan 31 Awst 2016, a HCC o bosib yn cael clywed am unrhyw ymholiadau ym mis Medi 2016, a phenderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan yr UE erbyn diwedd Tachwedd 2016.

*Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020*

Rhoddwyd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr:-

Roedd HCC wedi cyflwyno cais ar 7 Ebrill 2016 am arian i ddatblygu Cynllun Strategol ar ran y sector cig coch trwy alwad cydweithredu'r Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Cafwyd deunaw neges ebost o gefnogaeth o ledled y sector cig coch a chafodd y rhain eu cyflwyno gyda'r cais. Cafwyd cydnabyddiaeth o'r cais ynghyd â gwahoddiad i fwrw ymlaen â'r gwaith ar ein menter ein hunain cyn i benderfyniad ffurfiol gael ei wneud. Am fod y gwaith sylfaenol yn ymwneud ag amser staff, roedd gwaith wedi dechrau i ddod a nifer o weithgorau'r diwydiant at ei gilydd drwy gydol misoedd Mai, Mehefin a Gorffennaf 2016. Byddai'r grwpiau hyn yn darparu mewnbwn ac arbenigedd er mwyn galluogi cyflwyno'r cais/ceisiadau prosiect llawn.

Roedd staff HCC wedi mynychu cyfarfod wedi'i drefnu gan Lywodraeth Cymru ar 14 Ebrill 2016 i drafod datblygu Cynllun Grantiau Bychain y gellid ei gysylltu a'r Cynlluniau Strategol a gafodd eu hargymell gan y sector cig coch a sectorau eraill drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Roedd ystod a gofynion cynllun o'r fath yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Bu ystyried storfeydd gwybodaeth canolog ar gyfer gwybodaeth yn ymwneud â'r diwydiant a swyddogaeth y Cynllun Datblygu Gwledig o ran cefnogi'r rhain yn bwnc llawer o drafodaeth a dadlau. Trefnodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyfarfod o wahanol sefydliadau, gan gynnwys HCC, ar 14 Ebrill 2016. Bu'r Grŵp yn trafod y cyfleusterau cronfa ddata / rheoli data sy'n cael eu hargymell ar hyn o bryd trwy amryw o brosiectau'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Darparwyd mewnbwn a chyfeiriad strategaeth HCC i ADAS, CFfI, Coleg Llysfasi a Choleg Glynllifon a oedd yn ceisio datblygu prosiectau ategol o fewn y sector cig coch.

*Ymgyrch Cig Oen Cymru PGI 2016*

Dywedodd y Rheolwraig Datblygu'r Farchnad fod natur yr ymgyrch Cig Oen Cymru PGI wedi newid oherwydd tocio'r gyllideb ar gyfer 2016 / 2017. Rhoddwyd ystyriaeth ofalus gan y swyddogion gweithredol i'r ffordd fwyaf effeithiol o wario arian ar farchnata er mwyn cyflawni'r amcanion a bennwyd yng Nghynllun Busnes HCC ar gyfer 2016 / 2017. Yr un mor bwysig fu penderfynu pa amcanion y gellid eu cyflawni o fewn rheswm a'u blaenoriaethau perthynol.

*2016 / 2017 – Amcanion Cynllun Busnes Ymgyrch Cig Oen Cymru*

| **Canlyniad** | **Gweithgareddau** | **Mesur:** |
|---|---|---|
| Ymwybyddiaeth o'r Brand | Hysbysebu Ymwybyddiaeth | Cymru - 90%<br>Y DG – I'w gadarnhau |
| Cysyniad o'r Brand | Trwy brofiad / ymgysylltiad<br><br>Cysylltiadau Cyhoeddus (Cyfryngau Traddodiadol a Newydd) | Cysyniad (mesur i'w gadarnhau) o:<br>- Aml ddefnydd<br>- Hwylustod<br>- Cost / Gwerth |
| Cig a ddefnyddir (Mwy o Alw) | Cefnogi Cyfrifon Manwerth Allweddol | Teyrngarwch Man-werthwyr i Gig Oen Cymru Wedi'i Frandio<br>- Mwy o Le ar Silffoedd<br>Cyrraedd Aelwydydd<br>Amlder y Prynu |

| | | |
|---|---|---|
| | Recriwtio a Chadw Cigyddion Manwerth | Nifer yr Aelodau o'r Clwb Cigyddion |

*Datblygu Strategaeth*

Nodwyd taw hysbysebion teledu oedd y ffordd fwyaf effeithiol o dynu sylw at frandiau; fodd bynnag, roedd angen gwario o leiaf £200,000 i fod yn wirioneddol lwyddiannus. Am fod teledu wedi'i ddefnyddio bob blwyddyn hyd yma, i raddau mwy neu lai, roedd y Weithrediaeth yn ffyddiog y byddai rhywfaint o ymwybyddiaeth o frand yn parhau heb ymgyrch deledu yn 2016. Fodd bynnag, nodwyd taw rhagdybiaeth flwyddyn yn unig oedd hyn.

Er mwyn gwario arian ymgyrchu yn effeithiol, argymhellwyd y dylid cyd-redeg yr ymgyrch farchnata i gwsmeriaid yn y DG yn agos â gweithgaredd yn ymwneud â'r Cyfrifon Manwerth Allweddol a'r Cigyddion Annibynnol, a chanolbwyntio ar Ganfyddiad Brand ac Amcanion Defnydd.

Fel y cyfryw, câi'r ymgyrch ei thargedu at y sawl sydd eisoes yn prynu Cig Oen Cymru PGI ac at ddenu prynwyr newydd. Felly, byddai'n rhaid i HCC ganolbwyntio ar gael pobl i brynu'n amlach a chynyddu ymwybyddiaeth yn y cartref.

*Ysgoloriaeth HCC*

Dywedodd y Pennaeth Gweithrediadau ei bod yn gyfnod ymgeisio am Ysgoloriaeth 2016 / 2017 a taw'r dyddiad cau oedd 17 Mehefin 2016. Roedd cyfarwyddiadau ynghylch sut i ymgeisio ar wefan corfforaethol HCC.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 691)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

c. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 692)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Cynhadledd Flynyddol HCC – Ddydd Iau 10 Tachwedd 2016*

Nodwyd y cynhelid y Gynhadledd eleni ym Mharc Menai, Bangor.

Gwahoddwyd y Bwrdd i argymell siaradwyr posibl i'r Pennaeth Gweithrediadau.

d. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2016 (HCC 693)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd bod y penawdau yn y golofn gwariant wedi cael eu newid er mwyn adlewyrchu'r newidiadau o fewn Cynllun Busnes HCC 2016 / 2017.

Dywedwyd y cytunwyd yng nghofnodion y cyfarfod o'r Bwrdd ar 15 Ionawr 2016 y dylid rhoi gwybodaeth fwy manwl i'r Bwrdd am ailgodiadau tâl EIDCymru i HCC. Câi'r wybodaeth hon ei chynnwys ym mhapurau Incwm a Gwariant a Mantolen yn y dyfodol.

Nodwyd y byddai swyddogion o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol yn y swyddfa o 3 Mai 2016 i adolygu cyfrifon HCC tan 31 Mawrth 2016. Byddai'r Swyddfa Archwilio yn adrodd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a oedd wedi'i drefnu ar gyfer 20 Mehefin 2016.

Gofynnwyd i'r Bwrdd lenwi ffurflen datganiad ynglŷn â datgeliadau yn y Datganiadau Ariannol ac adnewyddu yswiriant y Cyfarwyddwyr a Swyddogion.

7. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Rhoddwyd y sefyllfa ddiweddaraf i'r Bwrdd gan y Prif Weithredwr:-

Yn ddiweddar, roedd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr wedi cyfarfod â Guto Bebb, AS, Is-ysgrifennydd Cymru, i roi manylion a diweddariad ynglŷn â'r mater.

Nodwyd bod yr Is-ysgrifennydd yn gefnogol iawn i achos HCC dros gael dosbarthiad tecach ar gyfer yr Ardoll Cig Coch a byddai'n ceisio cyfarfod â'r Gweinidog Gwladol dros Ffermio, Bwyd a'r Amgylchedd Morol, George Eustice AS, a swyddogion Defra i drafod y mater ymhellach.

Roedd yn annhebygol y ceid unrhyw gynnydd ynghylch y mater hwn yn ystod y misoedd nesaf oherwydd Refferendwm yr UE.

8. **I dderbyn adroddiad llafar am Adolygiad Llywodraeth Cymru o HCC – Mr Kevin Roberts**

Dywedwyd wrth y Bwrdd fod Kevin Roberts bron â gorffen casglu tystiolaeth a bod yr adroddiad a'r argymhellion ar fin cael eu cwblhau.

Nodwyd y byddai strwythur yr adroddiad yn seiliedig ar fframwaith holiadur gan Lywodraeth Cymru, sef:-

1. A oes angen Ardoll Statudol o hyd?

    1.1 Os oes, a oes gwahanol modelau ymyrraeth?

2. Ai HCC yw’r corff cywir i fuddsoddi cyllid Ardoll?

    2.1 A wyddoch chi sut mae cyllid Ardoll yn cael ei fuddsoddi?
    2.2 Yn eich barn chi, a yw arian Ardoll yn cael ei fuddsoddi yn y mannau cywir?

3. A yw lefel yr Ardoll yn gywir? A ddylai fod yn uwch neu’n is?

4. A ddylai’r Bwrdd Ardollau gwmpasu nwyddau eraill?

5. A ydych chi’n credu fod HCC yn rhoi gwerth am arian?

6. A yw ei raglenni wedi’u hintegreiddio'n dda i’r Strategaeth Amaethyddiaeth?

Roedd yr adroddiad ar amser i gael ei gyflwyno i Llywodraeth Cymru ar ddiwedd Mehefin 2016.

9. **I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015 (HCC 694)**

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Tachwedd 2015 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

10. **I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 (HCC 695)**

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Y&D a gynhaliwyd ddydd Mercher 9 Rhagfyr 2015 wedi’u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

Ynglŷn â mater perthynol, nodwyd bod y Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan Adam Quinney, Cadeirydd Cig Eidion a Chig Oen y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB), yn gwahodd Aelod o Fwrdd HCC i ymuno ag Is-bwyllgor Ymchwil a Datblygu Cig Eidion a Chig Oen AHDB mewn cyfarfodydd i drafod cyfleoedd ac i adolygu gwaith Y&D hirdymor a buddsoddiadau AHDB yn y dyfodol. Fodd bynnag, nododd y llythyr na fyddai gan yr Aelod a enwebid bleidlais ffurfiol ar Is-bwyllgor AHDB.

Yn dilyn trafodaeth, teimlwyd, am na cheid pleidlais ffurfiol ar yr Is-bwyllgor, na cheid fawr o werth o ran cytuno ar fuddsoddiad talwyr Ardoll yn y dyfodol nac o ran bod yn atebol i dalwyr Ardoll yng Nghymru.

Yn ogystal, nodwyd bod trefniadau hirsefydlog ar waith ar lefel y Weithrediaeth trwy’r Cyd-bwyllgor Y&D i sicrhau y byddai prosiectau, lle’r oedd strategaethau AHDB a HCC yn cyd-redeg, yn cael eu comisiynu a’u monitro ar y cyd gan gyrff Ardoll.

Dywedwyd bod AHDB, QMS a HCC wedi cytuno ar ffordd fwy tryloyw o ddosbarthu Ardoll Cig Coch. Hysbyswyd y Gweinidogion perthnasol am hyn ac roeddynt ar hyn o bryd yn ystyried y cytundeb ar y cyd.

Gyda golwg ar yr uchod a'r dialog parhaus ynghylch mecanwaith yr Ardoll, cytunwyd gwrthod y gwahoddiad y tro hwn.

11. **<u>I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid</u>**

Dywedwyd bod cronfa ddata EIDCymru yn gweithio'n dda a bod y Swyddfa'n prosesu tua 200 o dystysgrifau symud yn ddyddiol.

12. **<u>Papur Gwybodaeth - Datganiad ynghylch Is-frandiau Cig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI (HCC 696)</u>**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen, a chafodd ei dderbyn gan y Bwrdd.

13. **<u>Unrhyw fater arall</u>**

*<u>Aml-symudiadau Anifeiliaid Cig Eidion</u>*

Trafodwyd y dehongliad gan fân-werthwyr / proseswyr ynghylch sawl gwaith y gellid symud anifail cig eidion heb wynebu cosb o ran pris. Roedd yn ymddangos fod anghysondeb yn y dehongliad o'r amod gwerthu hwn rhwng mân-werthwyr / proseswyr.

*<u>Mercosur</u>*

Mynegwyd pryder ynghylch y trafodaethau masnach presennol rhwng yr UE a gwledydd Mercosur a allai arwain at fwy o gig eidion o Dde America yn dod i'r UE. Gallai hyn, yn ei dro, gael effaith andwyol ar hyfywedd y diwydiant cig eidion. Câi'r mater hwn ei godi a'i drafod â Chomisiynydd Amaeth yr UE mewn cyfarfod cyn bo hir.

*<u>Llywodraeth Cymru – Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru</u>*

Cytunwyd y dylid gwahodd Andy Richardson, Cadeirydd yr uchod, i gyfarfod o Fwrdd HCC.

*<u>Rheolwr Datblygu'r Farchnad</u>*

Diolchodd y Cadeirydd ar ran y Bwrdd i Laura Pickup am ei chyfraniad i'r diwydiant ac i HCC yn ystod ei chyfnod yn Rheolwraig Datblygu'r Farchnad gyda HCC a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd gyda Croeso Cymru.

Nodwyd bod HCC wrthi'n recriwtio ar gyfer swydd Rheolwr Datblygu'r Farchnad ar hyn o bryd.

14. **<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>**

Dydd Gwener 8 Gorffennaf 2016.

**<u>Cyfarfod Preifat a Chyfrinachol o Gyfarwyddwyr Anweithredol HCC</u>**

15. **<u>I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod o'r Is-bwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ddydd Gwener 6 Mai 2016</u>**

Ymadawodd y Weithrediaeth a Swyddogion Llywodraeth Cymru â'r cyfarfod.

Rhoddwyd sylw i'r eitem yn ystod rhan gyfrinachol o gyfarfod y Bwrdd ac fe'i nodwyd mewn cofnodion ar wahân.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**